# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion (EOC(3)-11-08)

**Dyddiad: Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9.30 – 10.35**
**Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Nick Ramsay, Mynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i aelodau'r pwyllgor ac i'r cyhoedd.

1.2 Nodwyd bod Mark Isherwood a Huw Lewis wedi rhoi eu hymddiheuriadau. Yr oedd Nick Ramsay a Joyce Watson yn dirprwyo. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1.3 Cyfeiriodd y cadeirydd at y cynnig a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod llawn yn hwyrach y diwrnod hwnnw i newid aelodaeth y pwyllgor, ac yr oedd yn dymuno cofnodi ei diolch i Huw Lewis am ei gyfraniad.

### Eitem 2: Rhaglen waith y pwyllgor
### Papur: EOC(3)-11-08(p.1)

2.1 Nodwyd y rhaglen waith arfaethedig gan yr Aelodau. Cytunwyd y byddai ymchwiliad nesaf y pwyllgor yn canolbwyntio ar gam-drin pobl hyn ac yn ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol yn benodol, ynghyd â chartrefi gofal, trosglwyddo eiddo a chyflogaeth.

#### Camau i'w cymryd

Yr ysgrifenyddiaeth i baratoi cylch gwaith a llythyr ymgynghori ar gyfer yr ymchwiliad ac i'w anfon at yr Aelodau yn electronig yn ystod y toriad.

### Eitem 3: Adroddiad ar ddogfennau a gyhoeddir ar gyfer pobl â nam ar eu golwg
### Papur: EOC(3)-11-08(p.2)

3.1 Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad.

#### Camau i'w cymryd

Yr ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi'r adroddiad ar y wefan.

### Eitem 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 5

4.1 Cynigiodd y cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 5, i ganiatáu i'r pwyllgor ystyried y pynciau sy'n codi o'r ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, a'r argymhellion.

4.2 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig.

Parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn breifat.

### Eitem 5: Ymchwiliad y pwyllgor i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru - ystyried yr adroddiad drafft

5.1 Bu'r pwyllgor yn trafod y papur.